



YSGOL BRYNREFAIL

GWERSYLL GLAN LLYN

Gohebydd : Math Roberts

Roedd pawb yn edrych ymlaen at gael mynd i Glan Llyn ar ddydd Gwener 21ain Ionawr 2011. Fe ddechreuodd ein taith ni am bump o'r gloch y prawn hwnnw. Roedd pawb yn disgwyl gyda'i bagiau y tu allan i'r Ysgol. Fe gychwynnodd y bws am y Bala. Roedd pawb wedi blino erbyn cyrraedd, ond roeddwn i'n dal yn llawn cyffro. Roedd rhaid i bawb gyfarfod yn y neuadd er mwyn cael ein rhannu i'n hystafelloedd. Roedd rhan fwyaf o'r bechgyn yn 'Bloc y Berwyn' a'r genod yn y 'Plas'. Roedd pawb yn rhedeg i fyny ac i lawr i weld ystafelloedd ei gilydd. Fe ganodd y gloch ac fe aethom am swper.



Ar ôl swper fe aethom i'r gampfa i chwarae gemau bach i basio amser. Doedd dim llawer o gysgu'r noson gyntaf. Roedd pawb yn cael hwyl ac yn rhedeg ac yn bwyta pob math o fferins ond doedd y staff ddim yn rhy hoff o hyn !

Yn y bore fe gawsom ein rhannu i mewn i with grwp. Fe gafodd pawb pum gweithgaredd dydd Sadwrn a tri dydd Sul. Fe gawsom ni siawns i ddringo, canwio, adeiladu rafft, cyfeiriannu, bowlio a llawer mwy. Y gweithgaredd roedd pawb yn hoffi oedd canwio er bod dŵr y llyn yn ofnadwy o oer i'r plant hynny gafodd eu gwlychu.

Nos Sadwrn roedd yna ddisgo mawr. Fe gafodd pawb hwyl yn dawnsio, canu a gweiddi. Roedd pawb wedi blino yn ofnadwy'r noson honno a disgynnodd pawb i gysgu yn syth.

Erbyn Sul roedd rhan fwyaf wedi colli ei llais ond gawsom ni dal hwyl yn gwneud y tri gweithgaredd olaf. Fe adawsom ni'r gwerysll ar ôl cinio ond nid dyna'i diwedd hi. Roedd pawb yn cael hwyl ar y bus ar y ffordd adref. Mae pawb yn diolch yn fawr iawn i staff y gwerysll a'r athrawon a ddaeth efo ni i'r gwerysll.

